

Rhifyn Newydd 37

Erydiad yn Eryri - Gwaith Maes

Mae 2475km o lwybrau cyhoeddus yn Eryri. Mae'r prif lwybrau yn ardal Ogwen, yr Wyddfa a Chadair Idris.

Er bod y llwybrau hyn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, nid y Parc Cenedlaethol sydd berchen ar y tir. Ffermwyr sydd berchen ar y tir hwn.

Mae dros 650,000 o bobl yn cerdded y prif lwybrau bob blwyddyn, ac maen nhw i gyd yn gadael eu hôl - nid trwy adael 'sbwriel, ond trwy adael ôl troed. Gall hyn greu problem i ffermwyr. Darllenwch ymlaen i ddarganfod pam.

Ydych chi wedi cael twll yn eich esgid? Cefais i droed wlyb eleni er fy mod yn gwisgo esgid. Roedd yr holl rwbio palmant, tarmac a llwybrau wrth gerdded wedi gwisgo'r gwadn yn ddim.

Wel os ydi'r tir dan ein traed yn cael effaith fel yna ar ein hesgidiau, ys gwn i beth ydi effaith yr esgid ar y tir?

Welsoch chi dir yn edrych fel yma erioed?

Dyma i chi awyrlun o lwybr y PYG a llwybr y Mwynwyr ar yr Wyddfa yn cyfarfod. Gallwch weld y llwybr yn glir o'r awyr. Mae'r holl draed yn rhwbio ar y tir wedi achosi ERYDIAD LLWYBR.



Ychydig iawn o wair sydd yn tyfu yma, sydd yn broblem i'r ffermwr. Gyda llai o wair, mae llai o fwyd i'r anifeiliaid.

Dyma'r camau yn y broses o erydiad llwybr:

1. Mae **llystyfiant** yn cael ei ddifrodi dan draed.
2. Nid yw gwair yn cael cyfle i dyfu, felly daw'r pridd i'r golwg.
3. Pan mae hi'n bwrw (ac mae hi'n bwrw llawer yn Eryri. Dros 4 metr o ddyodiad yn flynyddol ar gopa'r Wyddfa) mae'r pridd yn cael ei olchi i ffwrdd.
4. Mae'r llwybr yn troi yn ddwfn ac yn arw fel rhigol.
5. Nid yw pobl yn hoffi cerdded yn y rhigol yma, ac felly maent yn cerdded naill ochr iddo.
6. Mae'r gwair naill ochr i'r llwybr yn cael ei ladd ... ac mae cylch dieflig yn ffurfio.

Mae'r llwybr yn mynd yn lletach, yn ddyfnach, ac yn creu mwy o graith ar y tir. Mae glaw, ongl y llethr, cysgod gan goed a pha mor agos yw'r llwybr at afon hefyd yn gallu cael effaith ar lwybr. "Be ydi'r ots?" meddech chi?!! "Mae Eryri yn lle i bawb gael cyfle i ddod i'w fwynhau. Mae cerdded y llwybrau yn cŵl. Fedr hyn ddim cael llawer o effaith"

MEDDYLIWCH

Petaech yn rhoi'r llwybrau i gyd at ei gilydd mewn llinell syth gallech gerdded i Rwsia. Fedrwch chi ddychmygu llinell mor fawr â hon yn mynd yn ddyfnach ac yn lletach bob blwyddyn ... yr holl ffordd i Rwsia?

Petai'r tir hwn mewn parc gwledig, neu yn barc bach mewn tref, gellid rhoi llwybrau pwrpasol i lawr trwy'r ardal er mwyn sicrhau nad yw effaith yr holl draed yn weledol. Ym Mharc Cenedlaethol Eryri, nid yw'n bosibl gwneud hyn ym mhob man. Fedrwch chi feddwl pam?

Fodd bynnag, mae Partneriaeth Llwybrau Ucheldir Eryri wedi bod yn gweithio ar y prif lwybrau ers blynnyddoedd. Gallwch ddysgu rhagor am hyn trwy ddilyn y cyswllt hwn.

Oes llwybrau cyhoeddus yn agos i'ch ysgol chi? Ydi hwn neu ddarn o dir yr ysgol yn dioddef o Erydiad? Trwy fesur, arddangos a chofnodi, gallwn weld a oes erydiad yn digwydd ac wedyn meddwl am ddulliau i ddatrys y broblem.

Gwaith Ymchwil ar Erydiad Llwybrau

Byddwch angen

1. llwybr sydd yn hawdd ei gyrraedd o'r ysgol
2. tâp mesur
3. ffon fesur neu bren mesur
4. taflen gofnodi
5. clipfwrdd
6. pensil
7. athro a blwch cymorth cyntaf ... rhag ofn



Dyma sydd angen i chi ei wneud i lenwi'r daflen gofnodi syml hon.

Safle 1 - Cychwyn y llwybr

Lled y llwybr = cm

10 mesur ar draws


0cm

Dyfnnder (mm)

Uchder llystyfiant (mm)

1. Wrth bwynt cychwyn y llwybr, mae angen i chi fesur ei led. Fel arfer mae arwydd llwybr cyhoeddus, giât neu gamfa yma.
2. Rydych angen gosod y tâp mesur yn wastad ar draws y llwybr.
3. Rydych angen mesur y dyfnnder ar draws y llwybr. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw rhannu eich llwybr yn 10 e.e. os yw'r llwybr yn 1 metr o led, byddwch yn mesur ei ddyfnnder bob 10cm. Os yw'n 1.4 metr o led, rydych angen mesur ei ddyfnnder bob 14 cm.

Lled y llwybr




Faint o llystyfiant sydd ar y llwybr? Os oes glaswellt, mae mewn cyflwr da ac yn hawdd ei gerdded. Os oes dim ond mwd, bydd yn llithrig iawn yn y gaeaf. Os oes rhigol ddofn garegog yma, mae'r llwybr mewn cyflwr drwg. Mae lle i chi gofnodi uchder llystyfiant ar y daflen. Po uchaf y llystyfiant, po orau yw'r llwybr. Wrth gwrs, mewn parc gwledig, gall fod carreg ar wyneb y llwybr a dim llystyfiant. Gall ddangos arwyddion o erydiad er hyn.

Rydych angen gwneud yr un mesuriadau ar hyd y llwybr bob 50m. Gwnaiff hwn roi syniad da i chi o ble mae'r erydiad gwaethaf. Cewch drïo darganfod pam fo'r erydiad gwaethaf yma wedyn.

Yn ôl yn y dosbarth, gallwch greu graff o'r data. Gallwch wneud hyn gyda phensil ar bapur graff - cofiwch gael min ar eich pensil a rhwbiwr wrth law, neu gallwch wneud y graff ar becyn graffio fel Excel. Os am ddefnyddio hwn, cofiwch eich bod yn mesur am i lawr, ac wrth greu graff fel hwn cofiwch bod angen i chi roi'r data i mewn gyda 'minws' o'i flaen.

Erydiad y llwybr



Meddwl ymhellach.

1. Ble mae'r llwybr lletaf / ddyfnaf?
Fedrwch chi roi rheswm am hyn?
2. Pa effaith mae'r erydiad yma yn ei gael
 - a) arnoch chi
 - b) ar y tîrfeddiannwr
3. Faint o bobl sydd yn defnyddio'r llwybr?
Beth am wneud arolwg a chyfrif nifer y cerddwyr, amser prysuraf? Gallwch hefyd ofyn barn cerddwyr am gyflwr y llwybr trwy holiadur.
4. Fedrwch chi feddwl am ffyrdd o ddatrys y broblem?
Efallai y gallech ofyn i Swyddog Llwybrau Cyhoeddus eich cyngor ddod draw i sgwrsio gyda chi.